# DAVIES, DAVID LLOYD ('Dewi Glan Peryddon '; 1830 - 1881), bardd, datganwr, etc.

**Enw:** David Lloyd Davies
**Ffugenw:** Dewi Glan Peryddon
**Dyddiad geni:** 1830
**Dyddiad marw:** 1881
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, datganwr, etc.
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd 3ydd o Fawrth 1830 yn Llwyn Einion, gerllaw'r Bala, brawd John Davies ('Einion Ddu'). Daeth i'r amlwg fel cantwr bariton a difyrrwr mewn eisteddfodau, etc. - yng Nghymru ac, yn ddiweddarach, yn U.D.A. Cymdeithas Lenyddol Meirion a roes ei gyfle iddo i gychwyn. Enillodd lawer o wobrau mewn eisteddfodau - eisteddfod genedlaethol 1865 yn eu plith; cafodd y gadair yn eisteddfod Gwyl Dewi Bethesda, sir Gaernarfon, 1867, am awdl ar ' Tywyllwch.' Cyhoeddwyd yn *Yr Amserau* (o dan y ffugenw ' Dewi Einion') rai englynion a gyfansoddodd pan nad oedd ond 16 oed. Yr oedd ganddo ddawn at gyfansoddi dychangerddi a phethau difyrrus eraill, a gwelir llawer o'i waith o'r math hwn yn *Y Wasg Americanaidd*; bu'n golygu ' Lloffion Difyrus ' y papur hwnnw, a rhoes hefyd yn ' Cwpwrdd Cornel ' yr un papur ddisgnifiadau byw o rai 'cymeriadau' a adwaenai yn Sir Feirionnydd ac o fywyd yn y Bala a'r cylch, ynghyd â chyfeiriadau at rai o feirdd cyfoes yr ardal honno. Bu'n cyfansoddi miwsig ac yn arwain corau yn ardaloedd Llwyn Einion, Tywyn Meirionnydd, Llanfachreth, a Rhydymain. Wedi iddo ymfudo i'r America cyhoeddwyd, yn 1870 yn *Y Drych* (Utica), ei nofel, ' *Ceinwen Morgan, y Rian Dwylledig* ' (seiliedig ar fywyd yn Cwm Hirnant, Penllyn). Enillodd hefyd amryw wobrau mewn eisteddfodau am farddoniaeth - e.e. yn Kansas (1870), Hyde Park, Pa., Arvonia (1872), Utica (1875), a Youngs town (1880). Bu farw mewn tlodi, 23 Ionawr 1881, yn Oak Hill Farm, Waterville, a'i gladdu yng nghladdfa Ottawa, gerllaw Donsman, Wisconsin.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau

*Y Cerddor Cymreig* (1861-1873), 1864-5

D. J. Williams, *The Welsh Community of Waukesha County, Wisconsin* (Columbus Ohio 1926)

Tecwyn Ellis, *Dewi Glan Peryddon a'i nofel fer*, 2000

llawysgrif ym meddiant yr awdur

## Delweddau

John Thomas, John Davies (Einion Ddu, 1819-1906)

John Thomas, John Davies (Einion Ddu, 1819-1906)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732860

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu